

Trosolwg

Mae'r safon hon ynglŷn â pharatoi a chynorthwyo rheithwyr yn y llys yn ystod gwasanaeth rheithgor. Mae'n cynnwys croesawu a chofnodi manylion am reithwyr, a'u cyflwyno a'u paratoi i ystafelloedd llys, gan fynd i'r afael ag anghenion ac ymholiadau cyffredinol.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. cofnodi rheithwyr sy'n mynychu'r llys, yn unol â gofynion sefydliadol
2. esbonio protocolau llys i reithwyr
3. esbonio lleoliad y cyfleusterau sydd ar gael i reithwyr mewn adeiladau llys, yn unol â gofynion sefydliadol
4. cyflwyno gwybodaeth i reithwyr, yn unol â gofynion sefydliadol
5. ateb ymholiadau, yn unol â gofynion sefydliadol, ac:
 - 5.1 annog cwestiynau
 - 5.2 gwirio dealltwriaeth
 - 5.3 rhoi eglurhad
6. delio ag unigolion, yn unol â gofynion sefydliadol a deddfwriaethol
7. gweithredu ceisiadau gan reithwyr i'w hesgusodi o banel y rheithgor, yn unol â gofynion sefydliadol
8. monitro anghenion rheithwyr yn y llys, yn unol â gofynion sefydliadol
9. mynd i'r afael ag anghenion rheithwyr yn y llys, yn unol â gofynion sefydliadol, gan gynnwys:
 - 9.1 trefniadau arbennig sy'n effeithio ar fynediad at yr ystafell llys
10. monitro diogelwch a diogeledd rheithwyr, yn unol â gofynion sefydliadol
11. cynnal diogelwch a diogeledd rheithwyr, yn unol â gofynion sefydliadol
12. sicrhau bod rheithwyr yn gadael ystafelloedd llys yn ddiogel, yn unol â gofynion sefydliadol
13. cadw gwybodaeth yn ddiogel, yn unol â gofynion sefydliadol a deddfwriaethol

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. gofynion a gweithdrefnau sefydliadol presennol ar gyfer paratoi, cynorthwyo a mynd i'r afael ag anghenion rheithwyr tra byddant mewn adeiladau llys 2. achosion mewn llysoedd yr ydych chi'n gyfrifol amdanynt, gan gynnwys prif rolau swyddogion 3. rôl a phrif gyfrifoldebau rheithwyr 4. y mathau o drefniadau arbennig a allai fod yn ofynnol gan reithwyr, a sut i ddarparu'r rhain 5. cyfleusterau sydd ar gael i reithwyr mewn adeiladau llys 6. treuliau sy'n gallu cael eu hawlio gan reithwyr, a'r prosesau ar gyfer hawlio ac ad-dalu treuliau 7. gweithdrefnau ar gyfer gwacáu adeiladau llys, a'ch rôl a'ch cyfrifoldebau os bydd argyfwng 8. y mathau o ofynion brys ar gyfer diogelwch a allai effeithio ar reithwyr, a sut i ddelio â'r rhain 9. achosion o dorri rheolau uniondeb rheithgor a sut i ddelio â'r rhain, gan gynnwys yr angen i reithwyr beidio â chyfathrebu ag aelodau o'r cyhoedd yn ystod achosion 10. pwysigrwydd monitro diogelwch a diogeledd rheithwyr, a sut i wneud hyn

Cynorthwyo rheithwyr yn y llys

Datblygwyd gan Skills for Justice

Dyddiad cymeradwyo 01 Chwef 2018

Dyddiad Adolygu Dangosol 01 Chwef 2023

Dilysrwydd Ar hyn o bryd

Statws Gwreiddiol

Sefydliad cychwynnol Sgiliau er Cyfiawnder

RCU gwreiddiol SFJ DD2

Galwedigaethau perthnasol Swyddog Llys, Swyddog erlyn

Cyfes/Set Llysoedd, Tribiwnlysoedd ac Erlyniadau

Geiriau Allweddol llys; achos; rheithwyr; gwasanaeth rheithgor; ystafell llys; ymholiadau
